



**gan Llinos Davies  
Adran y Gymraeg**

# ARDDODIAID

# Arddodiaid

1. am, ar, at, trwy, dros, dan, gan, wrth, heb, hyd, i, o (+ treigladd meddal)

2. Berf ac arddodiaid

3. Rhedeg arddodiaid

4. Arddodiaid mewn ymadroddion

# 1) am, ar, at, trwy, dros, dan, gan, wrth, heb, hyd, i, o

Mae'r arddodiaid uchod yn achosi treigladau meddal.

- e.e Mae Gareth yn dod o Lanelli yn wreiddiol.  
Rydw i'n mynd i Gaerdydd dros y penwythnos.  
Bydd y bws yn gadael am **ddau** o'r gloch.

# Ymarfer 1: Llenwch y bwloch gyda'r gair mewn cromfachau. Cofiwch dreiglo!

1. Mae'r ganolfan yn agor am \_\_\_\_\_ o'r gloch? (tri)
2. Mae fy chwaer yn mynd i \_\_\_\_\_ yfory. (Llundain)
3. Gorweddodd y gath ar \_\_\_\_\_ Twm. (gwely)
4. Chwifiodd y ferch wrth \_\_\_\_\_ heibio. (mynd)
5. Rydw i'n dod o \_\_\_\_\_ yn wreiddiol. (Rhydaman)
6. Trefnwyd y cyfarfod gan \_\_\_\_\_ yr ysgol. (pennaeth)
7. Baglodd y ferch dros \_\_\_\_\_. (carreg)
8. Gwelwyd y lleidr gan \_\_\_\_\_ ifanc. (bachgen)

## 2) Berf ac Arddodiaid

Mae'n bwysig defnyddio'r arddodiad cywir ar ôl berfenw.

e.e	Siarad i	ANGHYWIR
	Siarad â	CYWIR
	Gwranddo i	ANGHYWIR
	Gwranddo ar	CYWIR

siarad â	<i>(to) speak to</i>
cytuno â	<i>(to) agree with</i>
mynd â	<i>(to) take</i>
dod â	<i>(to) bring</i>
talw am	<i>(to) pay for</i>
edrych am	<i>(to) look for</i>
siarad am	<i>(to) talk about</i>
sôn am	<i>(to) mention</i>
pryderu am	<i>(to) worry about</i>
edrych ar	<i>(to) look at</i>
gweiddi ar	<i>(to) shout at</i>
gwrando ar	<i>(to) to listen to</i>
cydio yn	<i>(to) hold something</i>

gweddio dros	<i>(to) pray for</i>
ateb dros	<i>(to) answer for</i>
dweud wrth	<i>(to) tell someone</i>
cysgodi rhag	<i>(to) shelter from</i>
dianc rhag	<i>(to) escape from</i>
agosau at	<i>(to) near</i>
mynd at	<i>(to) go to (a person)</i>
ysgrifennu at	<i>(to) write to (a person)</i>
gofyn i	<i>(to) ask someone</i>
mynd i	<i>(to) go to (a place)</i>
ysgrifennu i	<i>(to) write to (a company)</i>

## Enghreifftiau

Mae hi wedi **tal**u am y bwyd.

Maen nhw'n **chwil**io am y ci.

**Siarad**aish i â Gareth ar y ffôn gynnau.

Roedd e'n **gwr**ando ar y radio.

Bydda i'n **my**nd i'r Eisteddfod ym mis Awst.

**Edry**chon nhw ar y teledu neithiwr.

## Ymarfer 2: Cywirwch y brawddegau isod.

1. Bydd hi'n mynd i'r deintydd yfory.
2. Mae Sara yn siarad i John.
3. Rhaid i ni gysgodi wrth y glaw.
4. Rydw i'n mwynhau gwrando i gerddoriaeth yn y car.
5. Dwedais i i'r athro.
6. Talon ni ar y tocynnau ddoe.
7. Mae e'n mynd i ysgrifennu at *Starbucks* i gwyno.
8. Roedd Geraint yn pryderu at yr arholiad.



### 3) Rhedeg arddodiaid

Pan bydd rhagenw (fi, ti, fe, hi, ni, chi, nhw) yn dilyn rhai arddodiaid, bydd angen rhedeg yr arddodiaid hynny...

e.e      am + fe                      >              amdano fe

Maen nhw'n siarad amdano fe.

*They're talking about it/him.*

## AR

arna i  
arnat ti  
arno fe  
arni hi

arnom ni  
arnoch chi  
arnyn nhw

## AT

ata i  
atat ti  
ato fe  
ati hi

atom ni  
atoch chi  
atyn nhw

## AM

amdana i  
amdanat ti  
amdano fe  
amdani hi

amdanom ni  
amdanoch chi  
amdanyyn nhw

## TRWY

trwof i  
trwyot ti  
trwyddo fe  
trwyddi hi

trwyom ni  
trwyoch chi  
trwyddyn nhw

## DROS

dros of i  
dros ot ti  
dros to fe  
dros ti hi

drosom ni  
dros och chi  
dros tyn nhw

## DAN

danaf i  
danat ti  
dano fe  
dani hi

danom ni  
danoch chi  
danyn nhw

## GAN

gennyf i  
gennyt ti  
ganddo fe  
ganddi hi

gennym ni  
gennyh chi  
ganddyn nhw

## WRTH

wrthyf i  
wrthyt ti  
wrtho fe  
wrthi hi

wrthym ni  
wrthoch chi  
wrthyn nhw

## HEB

hebof fi  
hebot ti  
hebdo fe  
hebdi hi

hebom ni  
heboch chi  
hebbyn nhw

## RHWNG

rhyngof i  
rhyngot ti  
rhyngddo fe  
rhynddi hi

rhyngom ni  
rhyngoch chi  
rhyngddyn nhw

## I

i fi  
i ti  
iddo fe  
iddi hi

i ni  
i chi  
iddyn nhw

## O

ohonof i  
ohonot ti  
ohono fe  
ohoni hi

ohonom ni  
ohonoch chi  
ohonyn nhw

- e.e Mae hi wedi talu am y bwyd.  
Mae hi wedi talu **amdano fe**. (am + fe)
- Maen nhw'n chwilio am y gath.  
Maen nhw'n chwilio **amdani hi**. (am + hi)
- Doedd e ddim yn gwrando ar yr athrawes.  
Doedd e ddim yn gwrando **arni hi**. (ar + hi)
- Dwed wrth Ben am brynu siocled.  
Dwed **wrtho fe** am brynu siocled. (wrth + fe)
- Rydw i'n mynd at y deintydd yfory.  
Rydw i'n mynd **ato fe** yfory. (at + fe)
- Paid â gweiddi ar y plant.  
Paid â gweiddi **arnyn nhw**. (ar + nhw)

## Ymarfer 3:

Beth yw ffurf gywir yr arddodiaid canlynol?

1. am + fi

2. dros + ti

3. i + fe

4. heb + hi

5. dan + ni

6. ar + chi

7. at + hi

8. trwy + fi

9. wrth + fe

10. rhwng + nhw

# 4) Arddodiaid mewn ymadroddion

ar fyr rybudd

*at short notice*

ar y cyfan

*on the whole*

ar glo

*locked*

ar ras wyllt

*in a rush*

dros ben llestri

*over the top*

dros dro

*temporarily*

dan bwysau

*under pressure*

dan ei sang

*full to capacity*

heb os nac oni bai

*without a doubt*

heb ei ail

*second to none*

o dro i dro

*now and again*

o bob lliw a llun

*of every shape and colour*

o fore gwyn tan nos

*from dawn to dusk*

o'r gorau

*ok*

wrth fy modd

*in my element*

wrth gwrs

*of course*

wrth lwc

*luckily*

## Enghreifftiau

1. Roedd neuadd y pentref **dan ei sang** nos Sadwrn.
2. Rydw i **wrth fy modd** yn canu.
3. Gwelais Mrs Jones bore 'ma. Roedd hi **ar ras wyllt**.
4. Mae siop y pentref wedi cau **dros dro**.
5. Aeth Gareth a'r teulu i Ddinbych y Pysgod ddoe. Roedden nhw yno **o fore gwyn tan nos**.

*\*Ceisiwch ddefnyddio ymadroddion wrth siarad ac ysgrifennu\**

# Atebion

## Ymarfer 1

1. Mae'r ganolfan yn agor am dri o'r gloch?
2. Mae fy chwaer yn mynd i Lundain yfory.
3. Gorweddodd y gath ar wely Twm.
4. Chwifiodd y ferch wrth fynd heibio.
5. Rydw i'n dod o Rydaman yn wreiddiol.
6. Trefnwyd y cyfarfod gan bennaeth yr ysgol.
7. Baglodd y ferch dros garreg.
8. Gwelwyd y lleidr gan fachgen ifanc.

## Ymarfer 2

1. Bydd hi'n mynd at y deintydd yfory.
2. Mae Sara yn siarad â John.
3. Rhaid i ni gysgodi rhag y glaw.
4. Rydw i'n mwynhau gwranddo ar gerddoriaeth yn y car.
5. Dwedais i wrth yr athro.
6. Talon ni am y tocynnau ddoe.
7. Mae e'n mynd i ysgrifennu i Starbucks i gwyno.
8. Roedd Geraint yn pryderu am yr arholiad.

## Ymarfer 3

1. amdana i
2. drostot ti
3. iddo fi
4. hebddi hi
5. danom ni
6. arnoch chi
7. ati hi
8. trwof fi
9. wrtho fe
10. rhyngddyn nhw